


Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

Pearson
Edexcel

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Isabella Colic, Doethuriaeth mewn Seicoleg.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Ces i fy ngeni yn yr Eidal i deulu o fewnfudwyr Serbo-Croataidd. Pwysleisiodd fy rhieni rôl Eidaleg yn fwy na Serbo-Croateg er mwyn fy atal rhag bod dan anfantais yn yr ysgol, ond wnes i dyfu i fyny'n clywed y ddwy iaith. Wedyn, astudiais ieithoedd tramor yn yr ysgol uwchradd, yn arbennig Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg. Pan symudais i Gaerdydd i wneud PhD, roeddwn i'n agored i'r Gymraeg ac i'r pot amlddiwylliannol yn y ddinas.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Yn gynnar iawn, ond mae hi wedi bod yn berthynas sydd wedi mynd a dod trwy gydol fy mlynyddoedd ffurfiannol. Fel oedolyn, dwi nawr yn cael cyfle i feddwl eto am y ffordd mae gwybod sawl iaith yn cyfoethogi bywyd.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae gwybod mwy nag un iaith wedi helpu i ehangu fy ngorwelion. Dwi wedi gwneud ffrindiau o bob rhan o'r DU a gweddill Ewrop, ac mae wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o ddiwylliannau eraill.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Diolch i'r ffaith fy mod i'n gwybod sawl iaith, cefais le ar raglenni MSc a PhD. Drwy hyn, cefais gyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

sydd eu hangen arna i ddatblygu fy ngyrfa.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Swyddog Addysgu neu Ymchwil Addysg Uwch yn Llywodraeth Cymru.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Gallu symud dramor a chreu bywyd i mi fy hun mewn gwlad wahanol.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Gallu darllen llyfrau gan awduron sy'n ysgrifennu mewn iaith heblaw am Eidaleg a pheidio â gorfod dibynnu ar gyfieithiadau.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Gall astudio ieithoedd yn yr ysgol deimlo fel lladdfa ar adegau, yn enwedig dysgu gramadeg a geirfa ond er i mi weld hyn yn heriol, roedd yn werth chweil.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    *'Non c'è trippa per gatti'* – 'does dim cig i gathod': ymadrodd Eidaleg i ddweud nad yw unrhyw beth yn hawdd ac mae'n rhaid i ti weithio'n galed i gael beth wyt ti eisiau.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Byddwn i wrth fy modd yn gwella fy Nghymraeg, gan fy mod i'n teimlo cysylltiad dwfn â Chaerdydd a Chymru. Hoffwn i hefyd astudio Sbaeneg neu Bortiwgaleg oherwydd eu bod yn cael eu siarad yn eang ledled y byd.

12. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
Do'n i ddim yn gallu cofio'r gair '*dustpan*' yn Saesneg ac o'n i'n meddwl 'ai *dustpan* ydy'r gair? Mae hynna'n swnio'n rhy syml' felly wnes i ofyn i fy ffrind Prydeinig sy'n rhannu tŷ efo fi ac ia wir, dyma hi'n cadarnhau mai'r enw ar y teclyn ro'n i'n ei ddefnyddio oedd *dustpan,* a fyddai'n cyfieithu'n llythrennol mewn Eidaleg i '*padella per la polvere*'.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
Fy athro Ffrangeg ysgol uwchradd – roedd hi'n arfer argymell llyfrau Ffrangeg i mi eu darllen a byddwn i wedyn yn eu darllen yn awchus. Mae'n dal i fod yn un o'r atgofion mwyaf annwyl sydd gen i o'r blynyddoedd hynny.

14. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
Mae wedi ailgynnau fy angerdd tuag at ieithoedd tramor a fy ngwerthfawrogiad ohonyn nhw.

15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
Chwiliwch am ffyrdd eraill o ddysgu'r iaith, er enghraifft darllenwch lyfrau (llyfrau plant hyd yn oed), gwyliwch ffilmiau, darllenwch y newyddion yn yr iaith neu gwrandewch ar fiwsig ynddi.

